

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Egwyddorion a Chyd-Destunau (Amser Llawn)

Mae Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn gwrs Addysg Bellach Llawn Amser sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cwrs hwn yn yr Ysgol Iechyd, Cymdeithasol a Gofal Plant (HSC).

Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o unedau sydd i gyd wedi'u cynllunio i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwch yn astudio'r Diploma Sylfaen ym Mlwyddyn 1 a'r Diploma Estynedig ym Mlwyddyn 2. Mae cwblhau'r Diploma Estynedig yn llwyddiannus yn gyfwerth â 3 chymhwyster Safon Uwch. Ochr yn ochr â hyn, byddwch yn cwblhau Bagloriaeth Cymru ar Lefel Uwch lle byddwch yn gweithio ar gyfres o heriau a fydd yn ehangu eich datblygiad personol, cymdeithasol ac academaidd; mae Bagloriaeth Cymru yn cyfateb i lefel A pellach.

Byddwch yn astudio ystod eang o bynciau dros gyfnod o ddwy flynedd, a dangosir rhai o'r rhain isod.

Egwyddorion gofal ac arfer diogel
Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion
Hyrwyddo hawliau unigolion
Anatomeg a Ffisioleg
Iechyd a lles
Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol

Gofynion Mynediad

5 TGAU gradd C ac uwch i gynnwys Saesneg a Mathemateg; Byddai gwyddoniaeth yn fantais

Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster L3 yn llwyddiannus efallai y byddwch yn dewis mynd yn syth i'r gweithle lle gallwch chi ddatblygu'ch hyfforddiant. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn cynnwys gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol, mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl. Fel arall, gallwch ddatblygu eich addysg yn y brifysgol neu aros yn Grŵp NPTC i ddatblygu eich astudiaethau.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi syniad i chi o rai o'r cyrsiau y gallech wneud cais amdanynt, gan gynnwys nyrsio, nyrsio iechyd meddwl, gwyddor parafeddygol bydwreigiaeth, gwaith cymdeithasol, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol

Mae hwn yn gymhwyster llawn amser sy'n cael ei redeg dros 2 flynedd. Ar ddiwedd blwyddyn un byddwch yn cyflawni Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac ar ddiwedd blwyddyn dau y Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Modiwlau'r cwrs

Yn ogystal ag astudio'r theori, bydd gennych hefyd fantais ychwanegol o leoliad gwaith o fewn y sector, ac mae hyn yn caniatáu i chi roi'r theori ar waith. Mae ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd yn rhoi cipolwg ar weithio yn y sectorau pan fyddant yn ymweld â'r coleg i roi sgysiau pan fyddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt. Mae ymweliadau â phrifysgolion a'r cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau hefyd yn rhan o'r cwrs.

Asesiad

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys, astudiaethau achos, arholiadau allanol, cyflwyniadau, a bydd gofyn i chi weithio'n annibynnol i wneud ymchwil helaeth ar gyfer rhai o'ch asesiadau.

Costau Ychwanegol

- GWIRIAD DBS - £40.00 (yn amodol ar newid) i'w dalu wrth gofrestru
- COSTAU GWISG ar gyfer lleoliad gwaith (£30.00)
- Teithiau/ymweliadau gorfodol (£50.00) i'w talu wrth gofrestru

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Afan - 0330 818 8100

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk





Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

1Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

